Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Adroddiad y Gymraeg 2023-24



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Cynnwys


Cyflwyniad ........................................................................................3

Trosolwg o gynnydd.........................................................................4

Niferoedd ac ystadegau...................................................................8

Cydymffurfio......................................................................................11

  Pwyllgor y Gymraeg ........................................................................11

  Safonau'r Gymraeg...........................................................................12

  Cwynion...............................................................................................12

  Sgiliau iaith staff................................................................................13

  Penodiadau newydd ........................................................................14

  Hyfforddiant........................................................................................14

Gofynion statudol eraill.....................................................................15


## Hygyrchedd

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille, sain, hawdd ei ddarllen ac Arwyddeg a bydd yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

**Clawr**: Bridie Doyle Roberts, Sesiwn Llais y Lle, Bangor (Llun: Iolo Penri)

# Cyflwyniad

Bu'r Cyngor Celfyddydau yn brysur gydol y flwyddyn yn mynd trwy broses yr Adolygiad Buddsoddi. Gyda'r Gymraeg yn un o'r 6 egwyddor, llanwyd y flwyddyn gyfan gyda gweithrediadau strategol oedd yn sicrhau bod pob sefydliad oedd yn ceisio am arian aml-flwyddyn yn gorfod cynnig cynlluniau trylwyr ar gyfer y Gymraeg ochr yn ochr â chreadigrwydd a'r egwyddorion eraill.




Er prysurdeb y prosesu hwn, bu hefyd yn flwyddyn brysur i ddatblygiadau'r Gymraeg. Wedi cynllunio trylwyr yn y flwyddyn gyntaf, roedd ffocws rhaglenni gwaith y consortiwm celf Cymraeg ar weithredu yn ystod 2023/24.

Bu rhaglenni gwaith Iechyd a Chelf, y Rhaglen Dysgu Creadigol, Celf Rhyngwladol Cymru, Noson Allan a Cyfiawnder Hinsawdd yn brysur yn datblygu eu gweithredoedd Cymraeg trwy amryw raglen, a datblygwyd ein gwaith ymgysylltiol ac ymgynghorol ymhellach.

Mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol i'r sector ond er gwaethaf hyn, mae'r ymateb i'r her o gynyddu argaeledd y Gymraeg wedi derbyn ymateb cadarnhaol yn yr Adolygiad Buddsoddi a syniadau creadigol Cymraeg mewn ceisiadau Loteri.

# Trosolwg o gynnydd

## Gwasanaeth iaith gwaith i'r sector gelfyddydau

Mae Coleg Cambria yn derbyn nawdd uniongyrchol gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn darparu gwersi wythnosol a chefnogaeth dysgu ar lein.

Mae 82 unigolyn wedi cofrestru ar 6 chwrs Dysgu Cymraeg trwy Goleg Cambria, gyda phresenoldeb oddeutu 65%.

Parhawyd â'r cynllun carlam i 30 o ddysgwyr wrth iddyn nhw ymroi i symud o lefel Mynediad 2 i Sylfaen a thu hwnt. Cynhaliwyd yr ail gwrs yn y gyfres ym mis Mehefin 2023.

Cynhaliwyd gwrs Dysgu Uwch yn Nant Gwrtheyrn ym mis Mawrth oedd yn archwilio a chyfuno methodoleg Synhwyro'r Iaith gyda 12 yn mynychu ac yn datblygu eu Cymraeg trwy ddulliau creadigol.

Dyma fideo sy'n rhoi trosolwg ac ymateb i'r cwrs hwnnw.



Gweithdy creu llyfrau braslunio a chasglu syniadau

## Consortiwm Celf Cymraeg

Grŵp o 12 ymarferydd creadigol yw'r Consortiwm Celf Cymraeg o amrywiaeth eang o feysydd creadigol sydd â phrofiad ac arbenigedd o ran integreiddio'r Gymraeg yn eu hymarfer. Mae'r Consortiwm wedi ei greu gan Ysgogydd y Gymraeg ac yn gweithredu mewn capasiti ymgynghorol. Nod y consortiwm yw ymchwilio a datblygu cynlluniau i gynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn y sector celfyddydol.

Y pedwar maes i ddatblygu ac ymchwilio ymhellach yw:

### Llais y Lle

Sut gallwn osod y Gymraeg a diwylliant Cymraeg yng nghanol creadigrwydd cymunedol gan annog perchnogaeth a defnydd o'r Gymraeg yn y presennol a'r dyfodol?

Mae 9 cynllun llawn wedi gweithredu cynlluniau arloesol a 6 unigolyn creadigol yn cael eu cefnogi gyda'r alwad ar gyfer yr ail flwyddyn wedi agor a chau a'r penderfyniadau ar gyfer y flwyddyn ganlynol wedi eu gwneud. Roedd rhai newidiadau i'r alwad:

- Angen cadarnhau partneriaeth gyda mudiad neu sefydliad ar gais.
- Cyfle i geisio am £7,500 yn ogystal a'r swm llawn er mwyn rhoi cefnogaeth mwy cynhwysfawr i unigolion.
- Blaenoriaethu rhai ardaloedd daearyddol.

Dyma fideo sy'n crynhoi argraffiadau o Llais y Lle ar ddiwedd blwyddyn 1.

### Cymraeg yn y canol

Gosod y Gymraeg yng nghanol creadigrwydd gan sicrhau cynwysoldeb ac agwedd gadarnhaol at weithgarwch ac argaeledd y Gymraeg ar draws y sector. Mae'r amcan hwn yn ffurfio ymbarél uwch i'r holl gynlluniau eraill. Mewnbynnu canfyddiadau i gynllun y Gymraeg a'r celfyddydau.

### Cyfieithu / Dehongli ein hunaniaeth

Bu dau ddiwrnod o archwilio creadigol gyda Cyfieithwyr Cymru, aelodau'r consortiwm a chyfieithwyr ar y pryd.

Dyma fideo sy'n crynhoi'r diwrnod a'r darganfyddiadau.

### Synhwyro'r iaith

Cefnogi ac arfogi unigolion creadigol osod y Gymraeg yng nghanol eu gweithgarwch. Beth sydd ei angen er mwyn galluogi cefnogaeth ymarferol?

Mae pecyn cychwynol ar y wefan.

## Arwain mewn gwlad ddwyieithog

Croesawyd yr Academi Gymraeg i Gyngor y Celfyddydau yn ystod y flwyddyn hon, gyda chefnogaeth Uned Gymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r Cyngor a rheolwyr Cyngor y Celfyddydau.

## Datblygu gweithlu creadigol Cymraeg

Ymatebwyd i adroddiad ac argymhellion llwybrau datblygu'r celfyddydau.

Ymateb Cyngor y Celfyddydau i adroddiad llwybrau datblygu'r Gymraeg.

## Gweithredu argymhellion adroddiad marchnata

Cyhoeddwyd ymateb i'r adroddiad marchnata ym mis Hydref 2021 ac mae'r argymhellion yn cael eu gweithredu ond byddai'n fuddiol ail-edrych ar yr argymhellion wrth gynllunio datblygiadau cyfathrebu.

Ymateb i'r Adroddiad Marchnata.

## Pyst

Crewyd gytundeb gyda Pyst i roi platfform i unigolion cynllun Llais y Lle a thrwy wneud hynny rhannu'r dysgu yn gymunedol trwy eu rhaglen cymunedoli.

## Mentrau Iaith a'r Urdd

Bu diwrnod gyda'r Mentrau Iaith ym mis Hydref yng Nghanolfan Arad Goch, Aberystwyth. Bydd mwy i ddilyn gydag ail ddiwrnod i'w drefnu fydd yn canolbwyntio ar gyfleoedd neu bosibiliadau cenedlaethol a pharhad o rannu arbenigedd o fewn digwyddiadau a chynhadleoedd.

Mae sgyrsiau wedi dechrau gyda'r Urdd a chynlluniau i ddilyn patrwm tebyg i'r Mentrau yn y flwyddyn newydd.

## Rhaglen Dysgu Creadigol a'r Siarter Iaith

Yn dilyn penwythnos llwyddiannus yn Nhŷ Newydd yn archwilio'r maes 'Synhwyro'r Iaith' crëwyd gyswllt uniongyrchol rhwng y rhaglen Dysgu Creadigol a thîm Cymraeg 2050 y Llywodraeth. Mae'r cyswllt hwn eisoes wedi arwain at ddatblygiad cyffrous trwy'r Siarter Iaith.

## Noson Allan

Llwyddodd rhwydwaith hyrwyddwyr Cymraeg Noson Allan i wireddu cynllun cenedlaethol trwy bartneriaeth tair ffordd rhwng Noson Allan, Pyst a'r Mentrau. Mae teithiau cerddorol cenedlaethol y bartneriaeth dair ffordd yma ar ddechrau gyda datblygiadau ar gyfer theatr gymunedol rhwng cwmnïau cynhyrchu theatr a rhwydwaith y Mentrau trwy Noson Allan wedi dechrau gyda sioe Nadolig Mewn Cymeriad.


Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol

## Celf Rhyngwladol Cymru – Gwrando

Yn ogystal a chydweithio ar gynlluniau a mewnbynnu i drafodaethau rhyngwladol bu cynllun cyffrous ar waith gydol y flwyddyn adrodd hon. Nod Cronfa Gwrando yw meithrin y grefft o wrando ar ieithoedd a chymunedau sydd mewn perygl a dysgu am eu hymdrechion i warchod y tir y maent yn preswylio ynddi. Mae cynlluniau llwyddianus y gronfa wedi bod yn ddiwyd yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Cewch drosolwg o'r gweithredoedd yma.

## Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol

Mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Cwm Elan, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn falch iawn o gyhoeddi ail rownd gyllido Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol.

Mae Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol yn rhoi cyfle, gyda thâl, i bobl ddefnyddio'r celfyddydau i edrych ar effaith y newid yn yr hinsawdd ar fywyd pob dydd. Agorwyd yr ail gyfle am nawdd a derbyniwyd nifer uchel iawn o geisiadau yn ystod 2023.

Dyma wybodaeth am yr ymgeiswyr llwyddianus sy'n parhau i roi eu cynlluniau ar waith.


# Niferoedd ac ystadegau

Yn dilyn blwyddyn o asesu a phenderfynu ar y mudiadau fyddai'n derbyn cefnogaeth aml flwyddyn, penderfynwyd bod 81 mudiad yn gymwys ([gweler y datganiad i'r wasg yma]()).

O gymharu â rowndiau blaenorol, mae mwy o sefydliadau Cymraeg sydd ag arweiniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael cynnig cyllid, gan gynnwys Theatr Soar ym Merthyr Tudful ac Oriel Plas Glyn-y-Weddw yn Llanbedrog, Pen Llŷn. Mae gofyn i fudiadau gynnwys cyflawniad marc safon y Cynnig Cymraeg yn eu targedau.

Bydd cyflawniadau y mudiadau aml flwyddyn yma yn rhan o adroddiad 2024/25 gan mai dyma bydd eu blwyddyn weithredol gyntaf. Y 67 mudiad portffolio sydd yn rhan o'r adroddiad hwn.

Mae'r Cyngor Celfyddydau hefyd yn dyrannu arian trwy gynlluniau loteri. Y brif raglen loteri yw 'Creu' ond mae cyfleoedd penodol hefyd yn cael eu cynnig megis Llais y Lle, cronfeydd Celf Rhyngwladol Cymru a Camau Creadigol.



Gwersi Cymraeg,
Ysbyty Singleton

## Buddsoddiad cynlluniau Loteri

Yn ystod 2021/22 cymeradwywyd 15.2% o'r holl geisiadau i gynlluniau a oedd yn cynnwys dros 50% o'r Gymraeg. Mae'r ffigwr hwn yn îs na'r blynyddoedd blaenorol. Y ffactorau sy'n cyfrannu at y gostyngiad yn bennaf yw cronfeydd penodol sy'n targedu anghenion neu gefnogaeth benodol.

Mae targed ar gyfer twf wedi ei gytuno, sef bod o leiaf 30% o holl fuddsoddiad Loteri yn mynd tuag at gynlluniau sydd dros 50% Cymraeg erbyn diwedd 2026/27.

Yn y tabl isod, gwelir gymhariaeth o'r holl geisiadau loteri a gymeradwywyd ac a wrthodwyd yn erbyn hunan asesiad iaith yr ymgeiswyr.

| Loteri Genedlaethol | 2021-2022 | | | 2022-2023 | | | 2023-2024 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % prosiectau iaith Gymraeg | Cymeradwyo | Gwrthod | % cymeradwyo holl grantiau | Cymeradwyo | Gwrthod | % cymeradwyo holl grantiau | Cymeradwyo | Gwrthod | % cymeradwyo holl grantiau |
| 0% | 34 | 33 | 9.2 | 58 | 44 | 11.6 | 168 | 101 | 25.0 |
| 1%-15% | 100 | 86 | 27.0 | 128 | 83 | 25.5 | 184 | 154 | 27.3 |
| 16%-29% | 73 | 49 | 19.7 | 91 | 61 | 18.2 | 101 | 129 | 15.0 |
| 30%-49% | 98 | 110 | 26.5 | 108 | 77 | 21.6 | 118 | 129 | 17.5 |
| 50%-74% | 43 | 62 | 11.6 | 68 | 48 | 13.6 | 63 | 107 | 9.4 |
| 75%-99% | 19 | 17 | 5.1 | 36 | 25 | 7.2 | 31 | 23 | 4.6 |
| 100% | 3 | 9 | 0.8 | 12 | 6 | 2.4 | 8 | 8 | 1.2 |


## Mudiadau portffolio celfyddydol Cymru

Mae'r Cyngor yn ariannu 67 o fudiadau portffolio celfyddydol. Dyma ganlyniadau data holiadur blynyddol y mudiadau hynny ar gyfer 2023/24.

Cyflwynir ffigyrau cadarnhaol ar gyfer sesiynau cyfranogol yn ogystal a'r unigolion sy'n mynychu, mae'r twf yn sylweddol. Mae'r cwymp mewn perfformiadau a dangosiadau ffilm Cymraeg a dwy-ieithog yn cael ei adlewyrchu yn y gynulleidfa sy'n mynychu.

| Gweithgareddau a chyfranogiad | % o newid Cymraeg yn 2023/24 | % newid dywieithog ers 2023/24 |
|---|---|---|
| Perfformiadau | -10% | -5% |
| Cynulleidfa | -7% | 18% |
| Sesiynau cyfranogol | 15% | -7% |
| Cyfranogwyr | 8% | -16% |

| Cyflogaeth | % newid yn 2023/24 |
|---|---|
| % siaradwyr Cymraeg mewn cyflogaeth | 8.2% |
| % siaradwyr Cymraeg ar fyrddau | 9.6% |
| % llawryddion sy'n siaradwyr Cymraeg | 19.2% |
| % gwirfoddolwyr sy'n siaradwyr Cymraeg | -14.9% |




Gweithdy
Llais y Lle

# Cydymffurfio

## Trosolwg o wasanaeth Cymraeg a chydymffurfiant

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus. Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am orfodi dyletswyddau cyfreithiol y Mesur trwy gyfres o Safonau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus megis Cyngor Celfyddydau Cymru eu cyrraedd. Mae'r Comisiynydd hefyd yn ein monitro bob blwyddyn i asesu pa mor dda rydym ni'n ei wneud o ran eu cyrraedd.

## Pwyllgor y Gymraeg

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru Bwyllgor y Gymraeg (Grŵp Monitro'r Gymraeg yn flaenorol) y mae ei Gyngor wedi rhoi cyfrifoldebau penodol iddo am gychwyn, rheoli a monitro gwaith mewn perthynas â'r Gymraeg yn y celfyddydau.

Mae Pwyllgor y Gymraeg yn un o'r 7 is-bwyllgor sydd, ynghyd â'r Cyngor, yn cychwyn, rheoli a monitro gwaith, ac y mae'r Cyngor yn dirprwyo pwerau penodol iddynt. Mae'r Pwyllgorau islaw'r Cyngor yn ein strwythur llywodraethu ond mae ganddynt dasgau a/neu awdurdod diffiniedig dirprwyedig i weithredu yn ogystal â rôl cynghori a chraffu pwysig, yn adrodd i'r Cyngor ar berfformiad y gweithgareddau hynny sy'n rhan o'u cylch gwaith.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yma gan gynnwys Cylch Gorchwyl Pwyllgor y Gymraeg.

Un dasg allweddol i Bwyllgor y Gymraeg, fel yn y blynyddoedd blaenorol, oedd rhoi ar waith Safonau newydd y Gymraeg, fel y'u diffinnir yn y ddeddfwriaeth.

Gallwch weld rhestr lawn o'r Safonau sy'n berthnasol i ni yma.

## Safonau'r Gymraeg

Byddwn yn parhau i adolygu a diweddaru ein prosesau yn unol â safonau Comisiynydd y Gymraeg. Rydym hefyd yn cydweithio gyda thim Hybu swyddfa'r Comisiynydd wrth gynyddu gweithgarwch Cymraeg y sefydliadau sy'n cael eu hariannu yn yr hir dymor gan y Cyngor Celfyddyddau. Mae pob sefydliad sy'n gymwys i wnmeud hynny yn cael eu hannog i gwblhau marc safon y Cynnig Cymraeg.

Dyma sut rydym ni'n cydymffurfio â'r ymrwymiad hwn.

## Cwynion

Fel rhan o'n hymrwymiad i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, yn fewnol ac yn allanol, rydym yn cofnodi ac yn monitro unrhyw gwynion a dderbyniwn ynghylch y Gymraeg. Gall cwynion ymwneud â ni'n uniongyrchol neu ymwneud â sefydliadau neu weithgareddau yr ydym wedi'u hariannu.

Cafwyd 1 cwyn am y Gymraeg yn 2023-24, derbyniwyd ym mis Ebrill 2023. Daeth y gŵyn hon drwy swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, mewn ymateb i gŵyn a gawsant gan ymgeisydd yn dilyn gwrthod eu cais i'n rhaglen ariannu grantiau, a sut y gallai hyn effeithio ar hyrwyddo'r Gymraeg o dan Safon 90.

Darparwyd ymateb llawn, gan gynnwys manylion ein hasesiad o'r cais a oedd yn dangos tystiolaeth bod ystyriaethau y Gymraeg wedi'u hystyried a'u hasesu'n llawn, ac nad dyma'r rheswm dros wrthod y cais. Fe wnaethom hefyd ddarparu rhagor o fanylion am y gefnogaeth yr oeddem wedi'i chynnig i'r sefydliad. Derbyniwyd hyn gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

## Sgiliau iaith staff

Gofynnir i aelodau staff lanw hunan asesiad sgiliau iaith yn flynyddol. Cyflwynwyd hunan asesiad sgiliau iaith gan 74 aelod o staff ym mis Ionawr 2024. Dyma'r canlyniadau gyda chymhariaeth rhwng niferoeddy flwyddyn flaenorol:

| Lefel | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|
| Rhugl | 33 | 32 |
| Hyfedredd | 4 | 3 |
| Uwch | 4 | 5 |
| Canolradd | 5 | 5 |
| Sylfaen | 8 | 8 |
| Mynediad | 16 | 16 |
| Dim Cymraeg | 5 | 5 |

Nid pawb sy'n llanw'r holiadur, am amryw reswm gan gynnwys absenoldeb o'r gwaith, ond mae cofnod o sgiliau iaith aelodau staff yn cael ei gadw yn ganolog. Dyma'r dyraniad sgiliau yn ôl y system honno ar gyfer 94 aelod o staff gyda chymhariaeth cyffredinol gyda'r data hunanasesiad:

| Lefel | Nifer |
|---|---|
| Da iawn (Rhugl, Hyfedredd) | 37 (35 ar yr hunanasesiad) |
| Da (Uwch) | 12 (5 ar yr hunanasesiad) |
| Canolig (Canolradd) | 11 (5 ar yr hunanasesiad) |
| Sylfaenol / Gwael (Mynediad a Sylfaen) | 22 (24 ar yr hunanasesiad) |
| Dim | 12 (5 ar yr hunanasesiad) |

## Penodiadau newydd

Penodwyd 13 aelod newydd o staff yn ystod y flwyddyn. Cyflawnwyd asesiad sgiliau iaith ar gyfer pob swydd. Hysbysebwyd y gofynion ieithyddol canlynol:

| | |
|---|---|
| Cymraeg hanfodol | 6 |
| Cymraeg yn ddymunol | 7 |
| Angen dysgu Cymraeg wedi penodiad | 0 |
| Dim Cymraeg | 0 |

## Hyfforddiant

Mae 82 unigolyn wedi cofrestru ar 6 chwrs Dysgu Cymraeg trwy Goleg Cambria, gyda phresenoldeb oddeutu 65%.

Parhawyd â'r cynllun carlam i 30 o ddysgwyr wrth iddyn nhw ymroi i symud o lefel Mynediad 2 i Sylfaen a thu hwnt. Cynhaliwyd yr ail gwrs yn y gyfres ym mis Mehefin 2023.

Cynhaliwyd gwrs Dysgu Uwch yn Nant Gwrtheyrn ym mis Mawrth oedd yn archwilio a chyfuno methodoleg Synhwyro'r Iaith gyda 12 yn mynychu ac yn datblygu eu Cymraeg trwy ddulliau creadigol.

Cynhaliwyd hyfforddiant IT trwy'r tim mewnol a VALTO. Roedd yr hyfforddiant trwy gyfrwng y Saesneg.


Llun: Gavin Porter

# Gofynion statudol eraill

Trwy ddilyn 5 ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys) gallwn gefnogi targed Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sef sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050 trwy gyflawni ei themâu.

## Strategol

- Creu amodau ffafriol i'r iaith ffynnu.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

## Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi neges glir yn ei strategaeth ar y Gymraeg, Cymraeg 2050 – yr uchelgais i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Mae gan Cymraeg 2050 dair prif thema, sef **cynyddu'r nifer sy'n siarad Cymraeg, y defnydd ohoni** a **chreu amodau ffafriol**. Bydd ein holl gamau gweithredu yn 2023/24 yn cyfrannu at y meysydd hyn a nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o eiddo Llywodraeth Cymru sef creu "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

Mae'r meysydd canlynol yn cynnwys argymhellion yr Adroddiad Mapio, gan addasu dibenion y camau gweithredu yn unol â'r adborth o'n hymgynghoriad. Rydym wedi rhannu ein meysydd gwaith yn ddwy ran allweddol: Datblygu a Monitro.

Rydym yn cyfrannu at gyflawni nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

### Gofynion ein Siarter Frenhinol

"cyflawni'r amcanion (datblygiad, hygyrchedd a chynghori) trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg."

## Cyfrifoldebau Rhyngwladol

### Degawd Ieithoedd Brodorol Y Cenhedloedd Unedig 2022-2032

Pwysleisiodd Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Brodorol UNESCO fod ieithoedd o gwmpas y byd yn parhau i ddiflannu yn frawychus o gyflym er gwaethaf eu gwerth enfawr a'r cyfraniad enfawr maent yn ei wneud i amrywiaeth ddiwylliannol gyfoethog y byd. Mae 40% o'r 7,000 o ieithoedd a ddefnyddir ledled y byd yn wynebu rhywfaint o berygl. Gwaith adran Celf Rhyngwladol Cymru o fewn y Cyngor yw gweithio'n ddwys gyda chynrychiolaeth o wledydd y Byd er mwyn trafod dulliau creadigol cyfunol o fynd i'r afael a'r sialens. Mae cynadleddau, digwyddiadau a phrosiectau celfyddydol wedi dechrau a byddwn yn gweld ffrwyth eu llafur dros y blynyddoedd nesaf.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Adroddiad y Gymraeg 2023-24

www.celf.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®